# Trefniadau asesu drafft ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| Eich enw: Hywel Iorwerth | |
| Sefydliad (os yw'n berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg | |
| Cyfeiriad e-bost/rhif ffôn: | post@cyg-wlc.cymru |
| Eich cyfeiriad: | |

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **23 Rhagfyr 2022**, i'r cyfeiriad canlynol:

Dysgu Sylfaen
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

neu gellir llenwi'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad canlynol:
cwricwlwmigymru@llyw.cymru

**Cwestiwn 1**

i) Ydych chi'n gweithio mewn lleoliad meithrin a ariennir nas cynhelir neu’n cefnogi darpariaeth addysg mewn lleoliad o’r fath?

| Ydw | ☐ | Nac ydw | ✓ |
|---|---|---|---|

ii) Os ydych, mewn pa fath o leoliad neu sefydliad ydych chi'n gweithio? (Os nad ydych, ewch i iv isod.)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Meithrinfa ddydd breifat | ☐ | Sefydliad ambarél | ☐ |
| Cylch chwarae | ☐ | Y trydydd sector | ☐ |
| Cyn ysgol | ☐ | Darparwr hyfforddiant | ☐ |
| Cylch meithrin | ☐ | Llywodraeth | ☐ |
| Awdurdod lleol | ☐ | Corff rheoleiddio (sy'n cynnwys arolygiaethau) | ☐ |
| Consortiwm rhanbarthol | ☐ | Arall (nodwch beth) | |

iii) Beth yw eich prif rôl?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arweinydd | ☐ | Swyddog datblygu | ☐ |
| Ymarferydd | ☐ | Datblygu polisi | ☐ |
| Athro ymgynghorol yn y blynyddoedd cynnar (neu rôl gyfatebol) | ☐ | Aelod o bwyllgor rheoli | ☐ |
| Arolygydd | ☐ | Gwirfoddolwr | ☐ |
| Ymgynghorydd | ☐ | Arall (nodwch beth) | ☐ |

iv) Os nad ydych yn gweithio mewn lleoliad a ariennir nas cynhelir neu’n cefnogi darpariaeth addysg mewn lleoliad o’r fath, o ba safbwynt yr hoffech chi roi adborth?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | ☐ | Plentyn neu berson ifanc (dan 18 oed) | ☐ |
| Ymarferydd mewn lleoliad nas ariennir ac nas cynhelir | ☐ | Myfyriwr/academydd | ☐ |
| Rhiant/gofalwr | ☐ | Arall (nodwch beth) | ✓ |
| Oedolyn 18 oed neu’n hŷn (ddim yn rhiant nac yn ofalwr) | ☐ | | |

v) Ydych chi’n rhoi adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ |
|---|---|---|---|

**Os ydych, rhowch fanylion.**

| |
|---|
| Comisiynydd y Gymraeg |

**Cwestiwn 2** – Ydych chi wedi darllen y ddogfen ymgynghori ‘Trefniadau asesu drafft ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir’?

| Do | ✓ | Naddo | ☐ |
|---|---|---|---|

Os nad ydych chi, rydym yn argymell eich bod yn darllen y ddogfen cyn parhau â’r holiadur.

**Cwestiwn 3**

i) Ydych chi’n ymwybodol o’r dyletswyddau cyfreithiol ar gyfer trefniadau asesu mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ |
|---|---|---|---|

ii) I ba raddau y bydd y trefniadau asesu hyn yn cefnogi ymarferwyr i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol i asesu cynnydd plant mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir?

| Ddim yn eu cefnogi | Yn eu cefnogi | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| ☐ | ✓ | ☐ |

**Eglurwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 4** – Pa mor glir yw hi y dylai ymarferwyr ddefnyddio'r trefniadau hyn i’w helpu gyda’u hasesiadau wrth gynllunio cynnydd?

| Ddim yn glir | Yn glir | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| ☐ | ✓ | ☐ |

**Eglurwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 5**

i) Ydy hi'n glir sut y dylid rhoi'r egwyddorion cynnydd ar waith wrth wneud penderfyniadau am drefniadau dysgu a datblygu plant?

| Ydy | ✓ | Nac ydy | ☐ |
|---|---|---|---|

**Eglurwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

ii) Pa mor ddefnyddiol yw'r tabl sy'n dangos sut y gellir rhoi'r egwyddorion cynnydd ar waith er mwyn helpu i asesu trefniadau dysgu a chynnydd plant iau?

| Ddim yn ddefnyddiol | Yn ddefnyddiol | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| ☐ | ✓ | ☐ |

**Eglurwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

iii) Beth arall, os unrhyw beth, fyddech chi'n hoffi inni ei gynnwys yn y tabl?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 6** – Pa mor ddefnyddiol fydd y trefniadau asesu i ymarferwyr wrth ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd (a nodir yn adran 4.3 o'r ddogfen ymgynghori)?

| Ddim yn ddefnyddiol | ☐ | Yn ddefnyddiol | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Eglurwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 7**

i) Ydy hi'n glir bod asesu cychwynnol (adran 7) a pharhaus (adran 5.1) yr un mor bwysig â'i gilydd i gynnydd plant?

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| ✓ | ☐ | ☐ |

**Eglurwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

ii) Yn eich barn chi, pa derminoleg sydd fwyaf defnyddiol wrth gyfeirio at yr asesiadau y mae’n rhaid eu cynnal o fewn 6 wythnos ar ôl i blentyn ddechrau cael addysg feithrin a ariennir?

| Cychwynnol | Dechreuol |
|---|---|
| ✓ | ☐ |

**Eglurwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 8** – Ydy pwrpas yr asesu parhaus (adran 5.1) yn cael ei esbonio'n glir?

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| ✓ | ☐ | ☐ |

**Eglurwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 9 –** Ydy rôl arsylwi wrth asesu yn cael ei esbonio’n glir?

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| ✓ | ☐ | ☐ |

**Eglurwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 10**

i) Ydy pwrpas yr asesu cychwynnol yn cael ei esbonio'n glir?

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| ✓ | ☐ | ☐ |

**Eglurwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

ii) I ba raddau mae'r disgrifiadau yn yr adran ar asesu cychwynnol o gymorth i ymarferwyr o ran deall sut mae plant yn gwneud cynnydd?

| Ddim o gymorth | O gymorth | O gymorth mawr |
|---|---|---|
| ☐ | ✓ | ☐ |

**Eglurwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

iii) Pa wybodaeth arall, os o gwbl, fyddech chi'n hoffi inni ei chynnwys fel rhan o’r disgrifiadau hyn?

| |
|---|
| Gweler ein hymateb i gwestiwn 14 |

iv) Ydy’r ffordd y mae’r disgrifiadau wedi’u gosod yn helpu ymarferwyr i lunio barn am gynnydd plant unigol?

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ |

**Eglurwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 11** – Beth arall sydd ei angen i gefnogi’r defnydd o’r trefniadau asesu yn ymarferol?

| |
|---|
| Gweler ein hymateb i gwestiwn 14 |

**Cwestiwn 12** – Allwch chi weld y trefniadau asesu hyn yn cefnogi cynnydd plant o fewn ac ar draws llwybrau datblygiad y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir?

| Gallaf | Na allaf | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|
| ✓ | ☐ | ☐ |

**Eglurwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 13** – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y gallai'r trefniadau asesu hyn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi?

Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

| |
|---|
| Gweler ein hateb i gwestiwn 14 isod. |

**Cwestiwn 14** – Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r trefniadau asesu hyn gael eu llunio neu eu newid fel eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad ar y Cwricwlwm i Leoliadau Meithrin, fe wnaethom ddau bwynt cyffredinol:

1) Yr angen am eglurder y bydd lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn dilyn model addysg drochi, ac na fydd disgwyl iddynt gyflwyno'r Saesneg i blant
2) Bod y cwricwlwm yn gosod gofynion ar bob lleoliad i ddatblygu sgiliau Cymraeg pob plentyn, waeth beth fo cyfrwng ieithyddol y lleoliad.

Roeddem yn falch o weld bod mwy o eglurder ynghylch hyn yn y fersiwn derfynol o'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin.

Er hynny, credwn fod yr un gwendidau yn bodoli i raddau mewn perthynas â'r trefniadau asesu drafft.

Yn gyntaf, mae angen i'r trefniadau asesu fod yn fwy eglur ynghylch y ffaith mai drwy gyfrwng y Gymraeg y dylid asesu sgiliau llythrennedd plant sy'n mynychu lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Mae'r frawddeg ar dudalen 20 yn nodi 'er mwyn cael darlun cywir o sgiliau llythrennedd, dylid ystyried cymhwysedd plentyn yn iaith y cartref ac iaith y lleoliad.' Rydym yn deall rhesymeg hyn o ystyried y bydd nifer o blant sy'n mynychu lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn dod o gartrefi lle mae Saesneg yw'r iaith gyntaf. Er hyn, mae'n bosib gall y frawddeg yma gael ei chamddehongli ac arwain at ddryswch. Mae angen bod yn gwbl glir y bydd lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn dilyn model addysg drochi, ac mai ffocws y lleoliadau hyn fydd datblygu sgiliau cyfathrebu plant yn y Gymraeg, ac nid yn y Saesneg. Rydym yn derbyn wrth gwrs bod y ffaith nad y Gymraeg fydd iaith gyntaf rhai o'r plant hyn yn berthnasol iawn wrth asesu cynnydd llythrennedd a chyfathrebu. Y pwynt syml yma, yw bod lle i'r trefniadau asesu hyn fod yn fwy penodol a manwl wrth drafod cyfrwng iaith addysg.

Yn ail, nid yw'r ddogfen yn cyfeirio o gwbl at ddatblygu ac asesu sgiliau dwyieithog plant yn fwy cyffredinol. Rydym yn derbyn yn llwyr nad oes angen gormod o ffocws ar asesu sgiliau Cymraeg plant mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Er hyn, mae'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin yn rhoi sylw amlwg i ddatblygu sgiliau Cymraeg pob plentyn. Er enghraifft, ar dudalen 36 y cwricwlwm, mae'r ddogfen yn gofyn i ymarferwyr ystyried y graddau maent yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i blant gael profiad o'r Gymraeg. Nid yw'n glir i ni felly pam nad yw'r trefniadau asesu yn adlewyrchu hyn ac yn nodi'r angen i ystyried datblygiad plant yn y Gymraeg yn ogystal a'r Saesneg (er efallai mai gweddol gyfyngedig fydd y cynnydd o ystyried oedran y plant dan sylw).

**Cwestiwn 15** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael yn benodol â hwy, defnyddiwch y blwch hwn i’w nodi:

Mae’n debygol y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai’n well gennych chi ymateb yn ddienw, ticiwch yma: ☐